# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 2023

| | |
|---|---|
| **MATH O GYFARFOD** | **Cyfarfod Misol** |
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 22 o Chwefror, 2023** |
| **AMSER** | **7.00y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Capel Rhostryfan** |
| **CADEIRYDD** | **Michelle Williams** |

| | |
|---|---|
| 1. | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd **MW** bawb i'r cyfarfod.<br><br>Yn bresennol heno roedd:<br>Michelle Williams **(MW);** Jason Hunt **(JH);** Gwilym Williams **(GLW)**; Nerys Evans **(NE);** -Tom Ellis **(TE)**; Arwyn Herald Roberts **(AHR);** Huw Rowlands **(HR)**; ac Gillian Thomas **(y Clerc).** |
| 2. | **YMDDIHEURIADAU** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan**:**<br>Aeron Maldwyn Jones **(AMJ);** Gwilym Thomas **(GVT)**. |
| 3. | **DATGAN BUDDIANT** |
| | AHR 5(a) – Buddiant yn rhagfarnu – Nid oedd yn rhan o'r drafodaeth |
| 4. | **CADARNHAU COFNODION IONAWR 2023 A MATERION YN CODI** |
| | Cynigwyd Cofnodion Ionawr yn gywir gan HR gydag GW yn eilio a phawb yn cytuno<br><br>**MATERION YN CODI**<br><br>**a) LON LLWYN ONN**<br>Adroddodd HR bydd gwaith i gwblhau marciau ffordd ger Tan y Gelynnen yn cael eu gwneud gan y tîm tacluso yn y dyfodol agos.<br>Gwaith i glirio cerrig man yn llifo gyda dŵr i lawr o Fryn Rhodyn wedi ei ail wneud ond ddim yn datrys y broblem.<br>Dwr wrth Bryn Llwyd a Bryn Elan dal i redag i'r lon – y broblem yn gorwedd yn y cae Bryn Llwyd – Y clerc i ofyn i'r Cyngor lythyru a penchenog y tir i lanhau y ffoes – ochor ychaf at Rhosgadfan.<br><br>**b) GW - GOLWG AR Y STRYD DDWY OCHOR O RHOSISAF I ROSTRYFAN**<br>Wedi ei ail adrodd i'r Adran Priffyrdd - Yn parhau i fod angen ei lanhau- tyfiant troedfedd o ochor y clawdd yn arbed y dŵr redeg yn iawn.<br>Adroddodd NE pob problemau hefyd ger Glanywern gyda photeli gwin yn cael ei daflu i'r lon yn dragywydd a photeli wedi eu torri - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir<br><br>**c) GW -BRIGAU COED PENLAN ISAF, RHOSISIAF**<br>Wedi ei hadrodd i'r tîm tacluso, wedi eu tacluso<br><br>d) **GVT – LLIFOGYDD YN RHEDEG O GAE TŶ HEN AR Y GYFFORDD YN RHOSGADFAN** –<br>Y gwyn wedi ei gyrru blaen i Gyngor Gwynedd - dim ymateb gan y Cyngor Sir - AH am ei ddilyn i fynnu |

**e) MW BINAU GRAENU BRO CADFAN**

Nid oedd y clerc wedi derbyn ymateb - nid oedd addewid i adnewyddu'r biniau wedi ei gadw - Bro Cadfan, Lon Wen, Lon Llwyn Onn - Cynigiodd AH ei godi yn y Pwyllgor Craffu

**f) CAMFA HEN GASTELL LLANWNDA**

Wedi ei adrodd i'r Adran Llwybrau

**g) GW - GYLIAU ANGEN EU GLANHAU**

Pen Ceunant i sgwâr Bryn Melyn a Pen-y-groeslon i Fryn Melyn Rhosisaf
Wedi ei adrodd i Gyngor Gwynedd- ddim wedi clirio yn iawn

**h) JH – TYLLAU YN Y FFORDD**

- Ffrwd Cae Du ar y tro ochor chwith am Rostryfan bron cyn y tamaid anti skid.- dim wedi ei wneud
- Ger Bryn Peris Rhos Isaf – wedi ei wneud
- Ar y tro wrth y bont fach o Ffrwd Cau Du wrth Gae Helygen - wedi ei wneud

**i) PCAC/PEDW: ROW/3282401 - LLWYBR TROED RHIF 161 YNG NGHYMUNED LLANWNDA, GWYNEDD**

Adroddodd NE ganlyniadau'r cyfarfod.
Roedd wedi cyfarfod ar Arolygwr a dau Swyddog o'r Cyngor Sir - ar flaen y cyfarfod nid oedd Mr Kendal yn bresennol - Roedd rhaid i'r Arolygwr gerdded y llwybr ei hun- dim caniatâd i neb arall. Roedd wedi cyfarfod a Mr Kendal ar y llwybr! - Roedd y swyddog wedi gwrthod trafod gyda Mr Kendal hyd nes cyrraedd yn ôl at bawb arall.
Cynigiodd Mr Kendall gyfeiriad historig o ffordd gerdded - Nid oedd yr arolygwr yn cytuno gan ei fod wedi cynnig gwybodaeth neilltuol i'w ddatganiad gwreiddiol.
Nid oedd yr arolygwr wedi cynnig rhaglen i yrru gohebiaeth bellach ymlaen i'r Cyngor.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**a) RHIF CAIS/APP REF: C23/0103/24/TC - THE GOAT HOTEL , LLANWNDA, LL54 5SD**

**Dilyn a Darganfod** Cais am dystysgrif cyfreithloni defnydd presennol yr eiddo fel annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3.
AH datgan diddordeb – Nid oedd yn rhan o'r drafodaeth
Dim Sylwadau - Dim gwrthwynebiad

**b) RHIF CAIS/APP REF: C23/0031/24/DT - TYDDYN GŴYDD, RHOSTRYFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7PN**

**Dilyn a Darganfod** Codi estyniad ochr a chefn ar dŷ annedd
Dim Sylwadau - Dim gwrthwynebiad

**c) RHIF CAIS/APP REF: C22/1063/24/DT - 1 PENRALLT, SARON, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 5UW**

**Dilyn a Darganfod** Addasu adeilad allanol presennol i wasanaethu fel llety anecs
Dim Sylwadau - Dim gwrthwynebiad

**d) RHIF CAIS/APP REF: C23/0032/24/CR - TYDDYN GŴYDD, RHOSTRYFAN, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7PN**

**Dilyn a Darganfod** Codi estyniad cefn ac ochr ar dy annedd
Dim Sylwadau - Dim gwrthwynebiad

**e) RHIF CAIS/APP REF: C23/0074/24/LL - Y LLECYN, RHOS ISAF, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 7NG**

**Dilyn a Darganfod** Estyniad unllawr, trosi'r atig ynghyd â gosod ffenestri gromen newydd
Dim Sylwadau - Dim gwrthwynebiad

| 6. | MATERION MISOL |
|---|---|

**a) SEDDI GWAG Y CYNGOR CYMUNED**

Derbyniwyd cais gan Mr Jones, Gerlan, Rhostryfan I'w dderbyn fel Cynghorydd ar sedd wag Rostryfan - Cytunodd yr aelodau - y clerc i'w wahodd i gyfarfod Mawrth.
Nid oedd unrhyw ddiddordeb wedi ei dderbyn ar gyfer seddi gwag Rhosgadfan a Dinas.
Rhannodd HR ac MW argymhellion i drafod y seddi gyda dau drigolyn sydd heb gynnig diddordeb hyd yn hyn. Cytunwyd byddent yn ymdrech i gysylltu ar ddau erbyn cyfarfod Mawrth.

**b) MYNWENT CEFNFAES**

a) Adroddodd y clerc bod tap y fynwent bellach wedi cael ei ail atgyweirio - mantolen i'w gymeradwyo

b) Rhannodd AHR bryderon am gyflwr y gwair sef golwg ar ôl y tyrchod - cytunwyd gofyn i'r contractwr i'w ail hadu.

c) Rhannodd AHR hefyd bryderon am gyflwr y llwybrau gyda'r dirwedd a mwsog yn tyfu drosto - Y clerc i drafod gyda'r contractwr.

d) Nodwyd bod cadair wrth y wal wedi ei rhoi ar ei ochor - y clerc i drafod gyda'r contractwr

e) Rhannodd y clerc bryderon y contractwr am gyflwr y ffens o amgylch gorffwysle'r plant - yn dilyn trafodaeth cytunwyd ei drafod eto fis nesaf - y clerc i ddarganfod a rhannu cost ffens fetel.

f) Yn dilyn trafferthion y clerc i wneud unrhyw gamau pellach gyda Swyddog Carter Jonas I archebu tir ychwanegol cytunwyd ail gysylltu gyda pherchennog y tir.

g) Derbyniwyd cais gan JH I sefydlu plac yn Gorffwysle'r plant - NE cynnig trafod fis nesaf - y clerc i ddarganfod costau

**h) HYFFORDDIANT**

Daeth i sylw'r aelodau nad oes unrhyw hyfforddiant Gymraeg bellach yn cael ei gynnig - I berwyl hyn ni dderbyniwyd unrhyw ddiddordeb i fynychu - Adroddodd y clerc bod hwn hefyd yn broblem I Gynghorau eraill - y clerc i ymestyn cefnogaeth yr aelodau i unrhyw symudiad i newid hyn.

| 7. | ADRODDIADAU |
|---|---|

**CYNG. HUW ROWLANDS**

Adroddodd HR am ei waith yn ystod y mis:

- Llwyddiant gyda Chyngor Gwynedd wedi marcio ffordd i gysgodfa bws wrth Blythe Farm
- Saron - parhau i ddisgwyl cynlluniau ychwanegol gan Gyngor Gwynedd parthed gwahanol warchod ffordd tramwyo'r plant i'r cae chwarae
- Cwyn wedi ei godi gyda Llywodraeth Cymru parthed diogelwch modurwyr wrth Gylchfan Llanwnda o gyfeiriad Pwllheli yn dilyn cwynion oedd wedi ei derbyn
- Terrace Llanwnda - Wedi gofyn am fesuriadau sŵn yn dilyn cwynion am bobol yn rasio hwyr yn nos ar y ffordd osgoi.
- Cais wedi ei wneud i glytio ffosydd o'r sgwâr am Gae Garw, Rhosisaf
- Cais wedi ei wneud ond dim ymateb wedi ei dderbyn parthed lon Groeslon Tryfan
- Cais i glytio'r ffordd o Groeslon - Saron
- Parcio o flaen Bro Dawel / Bro Gilbert - arwydd wedi ei godi gyda diffyg, bydd yn trafod gydag Adra yn fuan

| | |
|---|---|
| | **CYNG. ARWYN ROBERTS**<br>Adroddodd AHR am ei waith yn ystod y mis:<br><br>• Brecwast Ffermwyr yng Nghanolfan y Fron wedi bod yn llwyddiannus gyd dros £800 wedi ei godi - Bydd yr elw yn mynd tuag at Gronfa Iechyd Meddwl Ffermwyr<br>• Roedd yn falch i adrodd am lwyddiant i dderbyn £3,000 o grant I Ganolfan y Fron gan Gynllun Gwresogi Gwynedd - bydd hyn yn galluogi'r ganolfan baratoi prydau bwyd am ddim 12 - 2 bob dydd Iau hyd at fis Mai, 2023 I aelodau Ward Tryfan<br>• Wedi cyfarfod gyda'r Cyngor Sir parthed y broblem gôr yrru yn Rhosgadfan, mesuriadau gwarchod wedi ei gosod - y cam nesaf fydd derbyn y data gyda bwriad cael Arrive Alive yn bersonol<br>• Cae gors – cynlluniau mawr ar y gweill gyda gobaith derbyn statws treftadaeth, meinciau wedi malu y cael ei adnewyddu yn fuan<br>• Problem wrthgymdeithasol yn Rhosgadfan - Plant hefo hoodies wedi bod o gwmpas yn taflu wyau at gartrefi, heddwas yn ymwybodol.<br>• Cwynion am yfed a gyrru yn digwydd o Glwb Mountain Rangers - bydd yn cyfarfod gyda'r heddwas fis Mawrth yng Nghae Gors<br>• Fan wen ger Trem Don - Y fan heb symud ers mis Tachwedd - heddlu yn wyliadwrus<br>• Adra – problemau parthed golwg ar y stadau – cytundeb wedi ei dderbyn lleoli skip yn Dreflan a Bro Cadfan<br>• Trefniadau wedi ei wneud i gwrdd â swyddogion Adra I gerdded rownd y pentref i ddarganfod y problemau mwyaf<br>• Bydd yn adrodd cwynion pellach ar gyfer yr ardal i'r Tîm Tacluso erbyn y 6ed o Fawrth<br>• Diwrnod agored yn yr Ysol Rhosgadfan 2 -5.30 ar y 7fed o Fawrth parthed cyfle i drafod costau byw. Bydd Nyth, CAB, Adra, Grŵp Cynefin, Cyngor Gwynedd, Tîm Gwarchod Plant a mwy yn bresennol.<br>• Trefniadau ar y gweill i gleiantiau Gofal Henoed Gwynedd a Môn gael cyfarfod a phlant yr ysgol yn Ysgol Rosgadfan unwaith y mis.<br>• Bydd yn gofyn I Chwarel Moel Tryfan am gyfraniad tuag at Gronfa Pwyllgor Lleol yr Eisteddfod Genedlaethol<br>• Cronfa Heddlu – Gobaith derbyn Grant I alluogi 2 heddwas cymunedol ar gyfer Ward Llanwnda o fis Ebrill |
| 8. | **MATERION ARIANNOL** |
| | **a) CYSONIAD**<br>Cymeradwywyd y cysoniad gyda NE yn JH cynnig ei gywirdeb ac yn eilio<br><br>**b) DATGANIADAU BANC** |

**CYFRIF CYFREDOL - 29 o Ragfyr 2022 i 28 o Ionawr 2023 2022**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £15,098.38 |
| | Derbyniadau | + | £0.00 |
| | Gwariant | - | £766.17 |
| | Balans Cau | = | **£14,332.21** |

**CYFRIF CADW - 27 o Ragfyr 2022 i 30 o Ionawr 2023**

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Balans Agoriadol | | £63,433.87 |
| | Derbyniadau | + | £0.00 |
| | Gwariant | - | £0.00 |
| | Balans Cau | = | **£63,433.87** |

**LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS AR Y DATGANIADAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **101681** | Un Llais Cymru | | £70.00 |
| **101682** | P. Griffith | | £85.00 |
| **101683** | Wyn Williams | | £648.00 |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **22.02.23** | G. Thomas | | £656.50 |
| **22.02.23** | G. Jones | | £55.00 |

9. **GOHEBIAETH**

**a) CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN – CYFLE I DDWEUD EICH DWEUD**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau i'w gweithredu

**b) CUDDFAN ADAR NEWYDD AR Y FORYD**
Derbyniwyd diweddariad gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd yn adrodd byddent yn gosod cuddfan adar newydd ar safle'r un flaenorol ar y Foryd yn ystod wythnos gyntaf o Chwefror.

Drwy garedigrwydd y tirfeddiannwr (Teulu Pengwern) mae sylfaen newydd wedi ei osod ac mae yna waith tirlunio wedi digwydd ar y safle er mwyn gwneud y fynedfa i'r safle yn fwy hygyrch i ymwelwyr. Mi fydd yna fynedfa bwrpasol yn cael ei osod hefyd er mwyn sicrhau y bydd pawb yn medru elwa o'r guddfan newydd.

Gyrrwyd addewid hefyd i hysbysu'r Cyngor o'r dyddiad pan fyddwn yn gosod y guddfan newydd yn ei lle ac fe fydd yna groeso i ymuno efo ni pan fyddwn yn agor y guddfan newydd i'r cyhoedd.
Mae wedi bod yn 'daith hir' ond mae popeth yn ei le bellach er mwyn sicrhau lleoliad addas a diogel i fwynhau rhyfeddodau natur Y Foryd.

10. **MATERION LLEOL / AELODAU**

a) TE - Rhannodd TE gwynion am geffylau yn cerdded ar Lon Eifion rhwng Llanwnda Bontnewydd - Y clerc i ofyn i'r Cyngor Sir oes caniatâd i hyn.

b) AHR - Adroddodd AHR am ddamwain heger ar lon Mynwent y Capel Rhosgadfan yn ddiweddar ger Gerddu gyda char wedi disgyn i'r ffoes oherwydd gordyfiant yn cuddio'r ffoes - Y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir

11. **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR**

15 o Fawrth 2023 yng Nghapel Rhostryfan